# FFA FFRENGIG

## 1 HAU DY HADAU

Gelli di hau'r hadau o fis Mawrth ymlaen mewn potiau. Rho 1 hadyn ym mhob potyn, 5cm o ddyfnder. Cadwa nhw yn y tŷ gwydr.

Gelli di ddechrau eu hau nhw'n syth i'r gwely llysiau o fis Mai i fis Mehefin. Heua nhw mewn rhesi, gyda 10cm rhwng pob planhigyn a 45cm rhwng pob rhes.


## 2 PLANNU ALLAN

Mae'r planhigion bach yn barod i fynd allan pan fyddan nhw tua 8cm o daldra a phan fydd dwy ddeilen go iawn gyda nhw. Planna nhw o dan drelis o olwynion beic fel y gallan nhw ddringo i fyny. Neu gelli di wneud wigwam gyda ffyn bambŵ iddyn nhw ei ddringo. Clyma'r coesynnau'n llac at y trelis wrth iddyn nhw dyfu.

## 3 CYNAEAFU

Gelli di hel y ffa yn eu codennau pan fyddan nhw'n 10cm o hyd a chyn i ti ddechrau gweld y ffa drwy'r goden.

Dylet ti eu hel nhw'n rheolaidd i annog mwy o godennau i dyfu.




## COFIA

Tynna ben y planhigyn pan fydd yn cyrraedd top dy strwythur i'w stopio rhag tyfu'n dalach ac i'w annog i gynhyrchu mwy o ffa.

Gelli di fwyta ffa yn ffres neu gelli di eu sychu. Os hoffet ti sychu'r ffa, hongia'r planhigyn wyneb i waered yn dy sied i'w sychu.



Newydd egino



Planhigyn ifanc



Barod i'w hel

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES